

Nid yw'r Arglwydd yn oedi cyflawni ei addewid, fel y bydd rhai pobl yn deall oedi; bod yn amyneddgar wrthy ch y mae, am nad yw'n ewyllysio i neb gael ei ddinistrio, ond i bawb ddod i edifeirwch.

2 Pedr 3:9

"Rydym yn ddiolchgar am yr ymgyrchoedd a chyfleoedd i efengylu a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gweddiwch y bydd Duw yn rhoi bywyd i'r had a blannwyd. Gweddiwch y bydd gan Gristnogion fwy o gonsyrn ac angerdd dros y colledig; mai ei prif ddeisyfiad fyddai gweld Cymry eraill yn dod i ffydd (Rhuf. 10:1)."

Rhun Murphy
Pen y Bryn, Wrecsam



Dim ond Duw all achub. Medrwn drefnu'r digwyddiadau gorau, ceisio perswadio gyda'r dadleuon cryfaf, dangos y mwyaf o gariad a chreu yr adnoddau mwyaf slic, ond os nad yw Duw yn adeiladu ei dŷ, byddwn yn llafurio'n ofer. Yn ystod yr wythnos rydym wedi canolbwyntio ar agweddau gwahanol o waith Duw yng Nghymru, ond mae'n rhaid i ni orffen gyda'n diolchgarwch a'n dibyniaeth lwyr arno. Os ydym am weld Cymru yn cael ei thrawsnewid, ei chymunedau'n gwella a phobl yn cael eu hachub, yna mae'n rhaid i ni bwysu yn llwyr ar yr Arglwydd. Does dim ffordd arall. Gadewch i ni barhau i weddio a phwysu arno.

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw ei fod wedi ein hachub – er mor annheilwng yr ydym. Diolchwch am sylmlrwydd yr efengyl ac am y fraint ryfeddol o fod yn briodferch i Iesu yng Nghymru.

YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni'n sylweddoli pa mor golledig yw pobl heb Grist a pha mor ddiymadferth yr ydym ni i newid y sefyllfa yn ein nerth ein hunain?

GOFYN

Gofynnwch i Dduw weithio ym mywydau pobl yng Nghymru. Gofynnwch iddo ogoneddu Crist ym mywyd cyhoeddus ac ym mywyd personol ein gwlad - mae haeddu'r gogoniant!

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Yn y cyfrifiad diwethaf yng Nghymru roedd cynnydd o 13.6% rhwng 2001 a 2011 yn y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt grefydd.

Mae Cymry Cymraeg yn parhau i fod yn gaeedig iawn i'r efengyl. Dywed Steffan Job (cydlynnydd rhai o ymgyrchoedd MEC): *'Mae gymaint o resymau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol pam fod llawer o'r Cymry Cymraeg yn methu clywed yr efengyl. Diolch byth fod y rhesymau yma yn dechrau dadrithio. Rydym yn parhau i ymdrechu'n galed i estyn allan, ond yn y diwedd, dim ond Duw all agor calon - i Dduw y dylem edrych.'*

Un o'r breintiau a chyfleoedd gwy ch yng Nghymru yw medru estyn allan i bobl o wledydd eraill sy'n byw yn ein plith. Mae rhai eglwysi yn y dinasoedd yn rhedeg gwasanaethu gyda chyfieithu i Ffarsi, Pwlyeg a Tsieinëeg.